**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Alec Dubens | Swyddog Trwyddedu |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C L Philpott, B J Rowlands ac L G Thomas

---

## 47 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 48 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2022 yn gofnod cywir.

## 49 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad

at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 50 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - MA.

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MA.

Esboniodd MA yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cais MA am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

## 51 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat – MAI.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MAI.

Rhannodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ddogfen a gyflwynwyd gan MAI.

Cyfeiriodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch at wall teipograffyddol yn adran 4.19 yr adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MAI yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Diddymu trwydded MAI i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

2) Ni chymerir unrhyw gamau gweithredu eraill mewn perthynas â thrwydded MAI i yrru cerbyd hacni.

Rheswm dros y Penderfyniad

Am y rhesymau uchod ac wrth ystyried y canllawiau uchod, teimlai'r aelodau nad yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol ac maent yn teimlo nad yw'n ddiogel ac yn addas i gael trwydded.  Yn ogystal, dan y canllawiau nid yw'r 7 mlynedd gofynnol ers ei gollfarn wedi dod i ben.

Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y gallent wyro oddi wrth y canllawiau yn unol â pharagraff 3.29 ond ni roddwyd unrhyw amgylchiadau eithriadol na rhesymau iddynt er mwyn cyfiawnhau gwneud hynny.

## 52 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat - SJD.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â SJD.

Esboniodd SJD, yng nghwmni DR, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cais SJD am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

## 53 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am roi Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - KT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â KT.

Esboniodd KT yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cais KT am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.23pm

**Cadeirydd**